Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Rhosybol
# Rhosybol
# Amlwch
# Ynys Mon
# LL68 9AP

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd naturiol ddwyieithog, gymunedol o dan ofal Awdurdod Lleol (ALl) Môn yw Ysgol Gymuned Rhosybol. Mae wedi ei lleoli ym mhentref bychan Rhosybol, dwy filltir y tu allan i dref Amlwch ar Ynys Môn. Mynychir yr ysgol gan 51 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed yn amser llawn, a chwech o blant meithrin rhan amser. Derbynnir plant i'r ysgol yn amser llawn ar ddechrau Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Addysgir y disgyblion gan ddau aelod staff amser llawn ac un athro rhan-amser.

Mae gan 23.5% o'r disgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn uwch na chanran y flwyddyn flaenorol ac ychydig yn is na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol. Mae gan chwech (sef 12.5%) o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae gan ddau ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae 100% o'r disgyblion o gefndir ethnig gwyn. Nid yw unrhyw ddisgybl yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac mae un disgybl o dan ofal yr Awdurdod Lleol.

Daw 34 o'r disgyblion (tua 60%) o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Nid yw 37% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ond maent yn siarad Cymraeg er nid yn rhugl. Mae 2 ddisgybl (tua 3%) yn dod o gartrefi di-Gymraeg a heb fedru siarad Cymraeg. Mae pob disgybl yn dilyn cwrs Cymraeg Mamiaith. Defnyddir y Gymraeg yn gyfrwng addysgu hyd at Blwyddyn 2, ac yn dilyn hynny defnyddir y Gymraeg a Saesneg yn gyfryngau addysgu.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2006. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ionawr 2011 a'r athro Cyfnod Sylfaen ym Medi 2011.

Yn 2010-2011, y gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Rhosybol yw £3,573 sy'n cymharu gydag uchafswm o £15,158 ac isafswm o £2,685 ar gyfer ysgolion cynradd ym Môn. Yr ysgol hon sydd â'r gyllideb fesul disgybl 21ain uchaf o'r 52 ysgol gynradd ym Môn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau cyrhaeddiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda;
- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- ansawdd addysgu yn gadarn dda ar draws yr ysgol;
- ansawdd lles gan gynnwys ymddygiad bron pob disgybl yn dda;
- cyfle cyfartal i bron pob disgybl mewn ysgol gynhwysol; a bod
- y pennaeth a'r staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm i godi safonau.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- disgwyliadau'r pennaeth yn uchel wrth flaenoriaethu a gweithredu camau er mwyn gwella;
- y pennaeth wedi sicrhau cynnydd da mewn meysydd pwysig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:
- y staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm; ac
- ethos yr ysgol yn ysgogi agweddau cadarnhaol at ddysgu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 gynnal a gwella ymhellach safonau disgyblion o bob oed a bob gallu;

A2 gosod cyfeiriad strategol manwl ar gyfer datblygiad hir-dymor;

A3 sicrhau bod y corff llywodraethol yn cyflawni ei rôl statudol; a

A4 gwella ansawdd asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol ac yn adrodd i Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Tros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad y disgyblion yn saith mlwydd oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, wedi bod yn dda ac yn cymharu'n gyson dda gyda disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae'r canlyniadau ar y lefel uwch na'r disgwyl (sef lefel 3), yn dda mewn Cymraeg a mathemateg, ond yn is na chanlyniadau disgyblion ysgolion tebyg mewn gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol yn fwy anwastad. Mae'r canlyniadau wedi amrywio o fod ymhlith y 50% uchaf o ysgolion i'r 25% isaf dros y tair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau'r disgyblion yn 11 mlwydd oed ar y lefel uwch na'r disgwyl (sef lefel 5) wedi bod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac ysgolion cyfatebol.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cyson dda yn ystod ei amser yn yr ysgol. Nid oes patrwm o wahaniaeth safonau rhwng y bechgyn a'r merched. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n briodol yn unol â'u gallu, a'u cyrhaeddiad.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus ar lafar mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Maent yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n frwd i drafodaeth gan ddefnyddio brawddegau cyflawn. Mae ganddynt afael dda ar eirfa a thermau ac fe wnânt gynnydd da mewn medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cynnig sylwadau yn ddigymell ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad Cymraeg graenus ac maent yn defnyddio'r iaith yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Gall llawer o ddisgyblion ddarllen ar goedd yn ystyrlon a chyda goslef briodol. Mae'r darllenwyr mwy abl yn trafod cynnwys, arddull a mynegiant awduron yn ddeallus. Mynega'r disgyblion hoffter am awduron penodol gan gynnig rhesymau dilys. Mae'r disgyblion iau yn defnyddio geiriaduron yn effeithiol ac mae'r rhai hynaf yn hyderus wrth frasddarllen a bwrw golwg i ddod o hyd i wybodaeth. Mae disgyblion heb afael flaenorol ar y Gymraeg yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio'r iaith. Yn gyffredinol, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n dda gyda'r disgyblion mwy abl yn cyflawni gwaith o ansawdd da iawn.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r angen i fwyta'n iach a chadw'n ffit a manteision gwneud hynny. Maent yn tyfu planhigion a llysiau yng ngardd yr ysgol ac maent yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadwraeth a'u cyfrifoldeb i ofalu ar ôl eu hamgylchedd yn dda.

Mae ymddygiad yn dda ac mae'r disgyblion yn mwynhau bod yn yr ysgol ac yn awyddus i ddysgu. Mae'r berthynas dda sydd rhyngddynt â'i gilydd, ac oedolion, yn

cyfrannu'n effeithiol at ansawdd eu gwaith. Mae pob plentyn yn datgan ei fod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut i gael cymorth os nad yw'n hapus.

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ysgol yn rheolaidd ac mae eu rôl yn datblygu'n effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion yn dod yn ddysgwyr mwy annibynnol, gan ddechrau gwneud mwy o benderfyniadau drostynt eu hunain. Gwna hyn wahaniaeth cadarnhaol i ansawdd bywyd yn yr ysgol.

Tros y tair blynedd diwethaf, mae'r gyfradd presenoldeb wedi bod yn 93.8% sydd yn gyfartal â'r ffigurau lleol ac yn uwch na'r un genedlaethol (93.1%). Mae prydlondeb yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu i ddiwallu anghenion disgyblion o bob oed, gallu a diddordeb.

Mae'r cynllunio yn dangos amcanion clir ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol, datrys problemau, a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm yn gadarnhaol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu dwyieithrwydd ac mae'n hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus ym mywyd a gwaith yr ysgol. Rhoddir sylw da i astudio amgylchedd, hanes a llên gwerin yr ardal.

Trwy dyfu llysiau yng ngardd yr ysgol ac ymwneud â chynlluniau'r 'Ysgol Werdd' ac Eco-Sgolion mae ymwybyddiaeth y disgyblion o gynaliadwyedd yn datblygu'n briodol. Maent yn cael eu paratoi yn dda i ddod yn aelodau cyfrifol o'r gymuned ac yn elwa o brofiadau dinasyddiaeth fyd eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysg yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol. Mae gan yr athrawon berthynas agos â'r disgyblion. Mae eu hadnabyddiaeth ohonynt yn eu galluogi i gynnig lefel effeithiol iawn o gefnogaeth a sialens i hybu eu datblygiad.

Mae gwybodaeth bynciol yr athrawon yn drwyadl a chyfredol. Mae eu cynlluniau yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Cwricwlwm 2008. Maent yn cydweithio'n dda ymysg ei gilydd a chydag athrawon arbenigol sy'n cefnogi disgyblion penodol.

Mae'r holl wersi wedi'u cynllunio'n effeithiol i adeiladu ar brofiadau a dysgu blaenorol. Mae'r cynnwys yn ddiddorol a'r cyflymder yn briodol i alluogi disgyblion o bob gallu i gyflawni'n dda. Mae'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn dda ar y cyfan gydag ambell enghraifft sy'n ddigonol.

Mae'r athrawon yn modelu iaith yn dda iawn i godi safonau llafaredd. Mae eu defnydd o derminoleg ar draws y cwricwlwm yn cyfoethogi iaith a dealltwriaeth y disgyblion yn dda iawn. Mae ymddygiad yn cael ei reoli'n effeithiol.

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer asesu disgyblion yn cael effaith dda ar godi safonau. Mae'r defnydd o brofion safonol a systemau olrhain perfformiad yn effeithiol iawn. Mae hyn yn arwain at gefnogaeth ac adnoddau penodol i gefnogi disgyblion yn ôl eu hangen. Mae'n hyrwyddo cynnydd disgyblion o bob oed a gallu yn dda.

Mae gan lawer o'r disgyblion hynaf dargedau personol i weithio tuag atynt. Mae'r athrawon yn eu defnyddio'n effeithiol i lywio eu gwaith.

Mae strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) yn datblygu'n dda. Mae'r athrawon yn cydweithio gyda'r disgyblion i nodi deilliannau dysgu clir. Maent yn cynnig adborth rheolaidd ar lafar (ac weithiau'n ysgrifenedig) i gyfeirio disgyblion i adnabod eu camau nesaf. Mae ansawdd y cyfleoedd i ddisgyblion wella eu gwaith eu hunain ac i fyfyrio ar eu cynnydd yn anwastad. Nid yw nodweddion AagD wedi gwreiddio'n ddigonol eto i gael effaith llawn ar safonau.

Mae'r wybodaeth i rieni/gofalwyr am berfformiad a chynnydd y disgyblion yn dda iawn. Mae'r adroddiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys cyfle i'r rhiant/gofalwr a'r disgybl i gyfrannu iddo sy'n arf effeithiol i hybu cydweithio. Mae'n arf dda iawn i gynorthwyo rhieni i gydweithio gyda'r ysgol i gefnogi cynnydd eu plant.

Mae'r ysgol yn safoni gwaith mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd eraill a'r ysgol uwchradd leol. Mae hyn yn hwyluso trosglwyddiad y disgyblion i'r cam nesaf yn eu haddysg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a threfnus ac mae'r disgyblion bron i gyd yn dweud eu bod hapus ac yn teimlo'n ddiogel ynddi.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae gwerthoedd fel gofal, tegwch a pharch yn cael eu meithrin yn gyson ym mywyd bob dydd yr ysgol. Maent yn darparu cyfleoedd da i fyfyrio a rhyfeddu wrth gydaddoli ac wrth ddarparu astudiaethau o waith awduron, beirdd, arlunwyr a cherddorion enwog ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd, hylendid a lles y disgyblion yn dda trwy ddarparu Clwb Brecwast, annog bwyta'n iach a darparu ymarfer corff rheolaidd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Caiff yr anghenion eu hadnabod yn fuan a dilynir y camau priodol. Adolygir y cynlluniau addysg unigol a chaiff rhieni rôl weithredol yn yr holl brosesau. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o wasanaethau arbenigol i adnabod a chefnogi anghenion disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cartrefol ac mae hi'n rhoi pwyslais da ar sicrhau cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn dda trwy eu cyswllt â phentref Sankwia yng ngwlad Gambia, a'u hastudiaethau o wledydd amrywiol.

Mae'r adnoddau yn dda a chânt eu defnyddio yn effeithiol i gefnogi anghenion dysgu'r disgyblion. Mae pob ystafell ddosbarth, gan gynnwys yr estyniad pwrpasol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, yn cynnig amgylchedd dysgu deniadol a symbylol. Mae'r neuadd a'r cae chwarae o faint da ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu. Caiff adeilad yr ysgol a'r tir o'i chwmpas eu cynnal yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinyddiaeth feddylgar a phwrpasol y pennaeth ynghyd â chefnogaeth y staff yn cael effaith bositif ar safonau'r disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth ar eu cyfer. Mae'r tîm yn rhannu'r weledigaeth am gyfeiriad yr ysgol i'r dyfodol. Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'i rôl a'i gyfrifoldebau traws ysgol.

Mae'r arweinyddiaeth yn cynnwys pawb yn y drafodaeth i sicrhau gweithredu effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth. Mae'n gefnogol iawn i waith yr ysgol ond nid yw'n gweithredu'n ddigon heriol fel 'ffrind beirniadol'. Nid yw ei rôl statudol wedi'i ddatblygu'n ddigonol gan nad yw'r holl ddogfennau a'r polisïau angenrheidiol yn eu lle. At ei gilydd, mae hyn yn anfoddhaol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn elfen ddatblygol o'r gwaith. Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gyda rhai adnoddau addas ac ysgogol. Datblygir cysylltiadau gydag ysgolion lleol eraill i rannu arfer dda. Mae'r pennaeth yn monitro ansawdd yr addysgu yn rheolaidd ac mae trefniadau effeithiol yn eu lle i adnabod a diwallu anghenion proffesiynol athrawon.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithgareddau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn datblygu'n dda o fewn yr ysgol. Mae'r pennaeth, yn bennaf, yn cyflawni ystod dda o weithgareddau monitro. Caiff yr holl staff ac aelodau'r corff llywodraethol y cyfle i gyfrannu i'r broses hunanarfarnu. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi sylwadau rhieni a'r disgyblion ac yn datblygu gweithdrefnau ar gyfer cryfhau eu cyfraniad hwythau.

Mae'r ysgol yn dehongli ystod o ddata yn effeithiol er mwyn llunio darlun clir o gynnydd disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd da o gefnogaeth ymgynghorwyr addysg i'r broses hunanarfarnu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig darlun cywir o'r ysgol ac mae'n ddogfen gynhwysfawr a defnyddiol.

Mae cysylltiad cryf rhwng y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Defnyddir y wybodaeth a gesglir yn effeithiol wrth gynhyrchu cynllun ar gyfer

datblygu'r ysgol am y flwyddyn sydd i ddod. Nid yw'r ddogfen bresennol yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer datblygiad hir dymor.

Ceir gweithdrefnau da ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol aelodau'r staff ac mae'r ysgol yn elwa o gydweithio effeithiol gyda'r ysgolion eraill o fewn y clwstwr lleol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau da gyda rhieni a gofalwyr. Mae trefniadau trosglwyddo o'r feithrinfa yn dda ac yn cynnwys cyfleoedd i'r plant ymweld â'r ysgol o flaen llaw. Mae cysylltiadau da a threfniadau trosglwyddo pwrpasol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd. Ceir cydweithio adeiladol gydag ysgolion cynradd eraill y dalgylch sydd yn cael effaith dda ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau da gyda'r gymuned. Mae'r bartneriaeth gyda gwasanaethau addysg yr ALl yn sicrhau cynnydd da yn y ddarpariaeth. Mae staff a disgyblion yr ysgol yn elwa o'r cysylltiadau gyda'r coleg addysg bellach lleol ac mae ei fyfyrwyr yn derbyn hyfforddiant yn yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'i chyllideb i hyrwyddo addysg effeithiol.

Mae staff yn creu amgylchedd deniadol ac ysgogol ac mae amrediad da o adnoddau addas yn yr ystafelloedd dosbarth. Yn ddiweddar, mae hi wedi buddsoddi'n sylweddol mewn offer technoleg gwybodaeth newydd a llyfrau darllen Cymraeg a Saesneg. Mae hyn wedi cael effaith bositif iawn ar gyflawniad disgyblion o fewn y meysydd hyn.

Mae'r corff llywodraethol yn cadw golwg ofalus ar y gyllideb a gwariant yn unol â blaenoriaethau'r cynlluniau datblygu.

Mae safonau'r disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu yn dda ac mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin y wybodaeth am asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2 yng nghyfnod allweddol 1, ac ar ddiwedd blwyddyn 6 yng nghyfnod allweddol 2 yn ofalus. Mae niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar ystadegau perfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Tros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad y disgyblion yn saith mlwydd oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, wedi bod yn dda. Mae'r canlyniadau yn cymharu'n gyson dda gyda disgyblion mewn ysgolion tebyg mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth dros dair blynedd. Yn gyffredinol mae'r canlyniadau ar y lefel uwch na'r disgwyl (sef lefel 3), yn dda mewn Cymraeg a mathemateg, ond yn is na chanlyniadau disgyblion ysgolion tebyg mewn gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol yn fwy anwastad. Mae'r dangosydd pwnc craidd (canlyniadau Cymraeg neu Saesneg, gwyddoniaeth a mathemateg wedi eu cyfuno) wedi amrywio o'r 50% uchaf o ysgolion i'r 25% isaf dros y tair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau'r disgyblion yn 11 mlwydd oed ar y lefel uwch na'r disgwyl (sef lefel 5) wedi bod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac ysgolion cyfatebol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion

Cwblhaodd 26 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Dywed bron bob un ohonynt eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio yn dda ag unrhyw fwlio. Mae llawer yn gwybod pwy i siarad ag ef neu hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach a bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd. Maent bron i gyd yn dweud bod eu plant yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Mae bron bob un yn dweud bod yr athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent bron i gyd yn dweud eu bod yn gwybod beth i'w wneud a chyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Dywed bron bob un bod ganddynt ddigon o lyfrau a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Maent bron i gyd yn dweud bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn dweud bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod felly yn gallu gwneud eu gwaith.

### Ymateb i'r holiadur i rieni

Cwblhaodd 16 o rieni/gofalwyr yr holiadur. Mae'r holl rieni/gofalwyr yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. Dywed bron pob un bod eu plant yn hoffi'r ysgol a'u bod yn ddiogel yno. Dywed y rhan fwyaf bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda. Dywedant oll bod yr ysgol yn trin pob plentyn yn deg a chyda pharch ac mae'r rhan fwyaf yn dweud eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Dywed y rhan fwyaf bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol. Dywed bron bod un bod yr ysgol yn annog eu plant i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod yr ysgol yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Dywed y rhan fwyaf, bron pob un, bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Dywed bron pob un o'r rhieni eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem a'u bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Dywed bron pob un bod yr ysgol yn paratoi eu plentyn yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Mae bron pob rhiant hefyd yn dweud bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Prydwen Elfed-Owen | Arolygydd Cofnodol |
| Carolyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Garem Jackson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iola Hughes (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |